



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwelliannau I Cyffordd 16 ac 16A yr A55 Adroddiad Asesiad Cynllun Cam 3 - Mawrth 2021



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund**

Yn hanesyddol, cyfeiriwyd at y cynlluniau yng Nghyffordd 15 ac 16 gyda'i gilydd fel 'Gwelliannau Cyffyrdd 15 ac 16'. Gan bod y Prosesau Statudol ar gyfer pob cyffordd yn cael eu cynnal ar wahân ac oherwydd y mân welliannau arfaethedig i osodiad Cyffordd 16A, penderfynwyd ailenwi'r Gorchmynion drafft, y Datganiadau Amgylcheddol a'r adroddiadau fel a ganlyn; erbyn hyn, cyfeirir at Gynllun Cyffordd 16 fel Cynllun Gwella Cyffyrdd 16 ac 16A. Cyfeirir at Gynllun Cyffordd 15 fel Cynllun Gwella Cyffyrdd 14 a 15.



Cynnwys

1. Pwrpas y ddogfen
2. Cyflwyniad
3. Amodau presennol
4. Pam fod angen y cynllun?
5. Polisiâu ac amcanion
6. Hanes y prosiect a dewisiadau amgen
7. Y cynllun
8. Costau
9. Asesiadau peirianeg
10. Beth fydd yn digwydd i'r ffordd bresennol?
11. Asesiad traffig ac economaidd
12. Beth sy'n digwydd nesaf?
13. Gwybodaeth bellach a'ch barn chi
14. Y cynllun

Rhif ISBN: 978-1-80082-386-0

© Hawlfraint y Goron

www.llyw.cymru

Mae Gweinidogion Cymru yn cynnig cael gwared ar y gylchfan ar yr A55 yng Nghyffordd 16 a'i hamnewid â chyffordd sydd wedi'i gwahanu ag uchderl. Teitl y cynllun arfaethedig yw Gorchymyn Cefnffordd Caer i Fangor (yr A55) (Gwelliant Ail-alinio Cyffyrdd 16 ac 16A a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) (y 'Cynllun').

Mae'r Adroddiad Asesiad Cynllun (SAR) Cam 3 yn disgrifio agweddau di-amgylcheddol y cynigion ac yn cefnogi bod y Gorchymynion drafft a ganlyn yn cael eu cyhoeddi ar gyfer y Cynllun:

- Gorchymyn Cefnffordd Caer i Fangor (yr a55) (Gwelliant Ailalinio Cyffyrdd 16 ac 16A a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) 202-
- Gorchymyn Cefnffordd Caer i Fangor (yr a55) (Gwelliant Ailalinio Cyffyrdd 16 ac 16A a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) (ffyrdd ym yl) 202-
- Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Caer i Fangor (A55) (Ailaliniad a Slipffyrdd Gwelliant Cyffyrdd 16 a 16A)) 202-

Nid yw'r SAR yn ymdrin yn fanwl ag agweddau amgylcheddol y Cynllun; mae'r rhain i'w gweld yn y Datganiad Amgylcheddol (ES) a cheir crynodeb ohonynt yn y Crynodeb Annhechnegol (NTS).

Mae ES wedi'i baratoi sy'n nodi'r prif effeithiau amgylcheddol ar yr amgylchedd a grëwyd gan ddyn a'r amgylchedd naturiol ac mae'n disgrifio'r mesurau arfaethedig i'w hosgoi, eu hunioni neu i leihau'r effaith a darparu mesurau cyfoethogi amgylcheddol lle bo hynny'n berthnasol.


Mae NTS yn rhoi crynodeb o'r ES mewn iaith nad yw'n dechnegol. Dylid darllen y SAR hwn ar y cyd â'r NTS. Pwrrpas y dogfennau hyn yw sicrhau bod pawb sydd â diddordeb yn y Cynllun yn deall y cynigion ac yn cael y cyfle i fynegi barn, gan roi cyfle i Weinidogion Cymru benderfynu p'un i fwrw ymlaen â'r Cynllun ai peidio.

Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am gefnffyrdd yng Nghymru ac ar ôl ystyried amrediad o ddewisiadau posib, maent yn cynnig cael gwared ar y gylchfan yng Nghyffordd 16 a'i hamnewid â chyffordd ar wahanol lefelau yng Nghyffordd 16A a chysylltiad ffordd gswllt newydd i Gyffordd 16 lle byddai'r slipffyrdd tua'r gorllewin yn cael eu cadw.

Mae gwaith estynedig wedi'i wneud o ran ystyried diogelwch y ffordd ar hyd yr A55 ger Penmaenmawr a Dwygyfylchi, sy'n dyddio'n ôl i 2005. Mae llawer o'r gwaith hwn wedi canolbwyntio ar asesu opsiynau i wella'r cylchfannau yng Nghyffordd 15 ac 16, sy'n llesteirio llif y traffig ar hyn o bryd. Yn 2011 cafodd Cynllun ei gynnwys yng Nghynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella Cyffyrdd 15 ac 16 ar yr A55. Cafwyd ymrwymiad pellach i wella'r cyffyrdd yn 2015.

Ar ôl 12 wythnos o ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd dros yr haf yn 2018, cyhoeddwyd Opsiwn A fel yr opsiwn a ffafriwyd ar gyfer amnewid y gylchfan yng Nghyffordd 16 ar gyfer Penmaenmawr a Dwygyfylchi, gan Weinidog Trafnidiaeth Cymru ar 5 Ebrill 2019. Mae hwn yn darparu cyffordd symudiad pedair ffordd gyda throsbont yng Nghyffordd 16A. O gwmpas yr un amser, cyhoeddwyd y TR111 sy'n dangos y 'Llwybr a Ffafir'. Ers y cyhoeddiad, mae gwaith dylunio pellach wedi cael ei wneud i fireinio'r opsiwn.

Yn amodol ar gwblhau'r gweithdrefnau statudol yn foddhaol ac ar argaeledd cyllid, mae'r dyluniad manwl i fod i fynd rhagddo yn y Hydref 2021 yn dilyn penodiad Contractwr Dylunio ac Adeiladu. Yr amserlen dan sylw yw y byddai'r Cynllun yn dechrau cael ei adeiladu yn yr Gaeaf 2021 ac y byddai'n cymryd oddeutu 18 mis i gwblhau'r gwaith.



Ffigur 1 Y Llwybr a Ffafir 2019

<https://llyw.cymru/a55-cyffordd-15-ac-16-map-or-llwybr>

Mae Cefnffordd yr A55, (Ffordd Gyflym Gogledd Cymru), yn llwybr strategol ar hyd arfordir Gogledd Cymru. Yn ogystal â bod cymunedau lleol yn ei defnyddio, mae'r llwybr hefyd yn cael ei ddefnyddio'n helaeth yn ystod yr haf gan dwristiaid sy'n teithio i gyrchfannau megis Eryri, Ynys Môn, Penrhyn Llŷn a Phorthladd Caergybi ar gyfer y gwasanaeth cyswllt fferi i Iwerddon.

Adeiladwyd cylchfan bresennol Cyffordd 16 ar ddiwedd y 1980au/1990au cynnar a hynny er mwyn lliniaru tagfeydd traffig. Mae'r A55 a rheilffordd Gogledd Cymru Caer i Gaergybi yn dilyn coridor paralel rhwng yr arfordir a mynyddoedd Eryri. Mae'r A55 yn darparu mynediad i ganol tref Penmaenmawr a phentref Dwygyfylchi. Mae gan y cymunedau hyn fynediad uniongyrchol i'r A55 yng Nghyffordd 15A, Cyffordd 16 a Chyffordd 16A. Yr unig lwybr amgen allan o'r ardal yw ar hyd Bwlch Sychnant i Gonwy.

Mae sawl safle dynodedig statudol yng nghyffiniau Cyffordd 16, gan gynnwys dyfroedd arfordirol ac ardaloedd rhynglanwol i'r gogledd o Benmaenmawr a Dwygyfylchi. Yn ogystal, saif Parc Cenedlaethol Eryri gerllaw. Mae nifer o rywogaethau sensitif wedi cael eu hadnabod gerllaw, gan gynnwys ystlumod, dyfrgwn, brithyll a llysywod. Mae'r Tirwedd Hanesyddol, a saif yn yr ucheldir i'r de yn nodedig am archeoleg ac am ei gymeriad agored. Mae arolygon geoffisegol wedi nodi nifer o ardaloedd o ddiddordeb. Ym Mhenmaenmawr, mae pedair Ardal Cadwraeth sy'n gwarchod adeiladau o'r 19eg ganrif yn bennaf.

Mae'r problemau amgylcheddol presennol sy'n gysylltiedig â'r A55 yn cynnwys sŵn a'r effaith weledol. Mae'r A55 ger Llanfairfechan, Penmaenmawr a Dwygyfylchi wedi'i hadnabod fel ardal â blaenoriaeth ar gyfer ymyrraeth (yn seiliedig ar fapiau sŵn 2007). Mae'r problemau cymdeithasol presennol yn cynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â dibyniaeth y cymunedau ar yr A55 am fynediad, yn ogystal ag effaith yr A55 gan bod y ffordd yn gwahanu'r cymunedau oddi wrth yr arfordir.

Mae cefnffordd yr A55 yn elfen allweddol o rwydwaith ffyrdd y DU ac Ewrop ac mae'n darparu'r brif wythïen economaidd ar gyfer Gogledd Cymru gyfan. Mae'n rhan o'r Euroroute 22, sef y Llwybr Traws Ewropeaidd o Ddelyn, Iwerddon, i Ishim, Rwsia. Y gylchfan ar raddfa yng Nghyffordd 16 yw un o'r unig ddwy gylchfan ar y llwybr yng Ngogledd Cymru. O ganlyniad, mae'n llesteirio llif y traffig, gan effeithio ar ddibynadwyedd amser siwrne ar y TEN-T Core Route.

Bu i Astudiaeth Canllaw Gwerthuso Trafnidiaeth Cymru (WeITAG) a gynhaliwyd yn 2018, dynnu sylw at broblemau allweddol ar gyfer Cyffyrdd 15 ac 16, ac i'r angen am welliannau i fynd i'r afael â'r problemau a ganlyn:

Diogelwch

Nid yw'r gyffordd yn cydymffurfio â safonau dylunio presennol. Ystyrir bod hyn yn effeithio ar ddiogelwch a chapasiti.

Traffig yn cael ei oedi

Yr angen i leihau amser siwrneion ac oedi, yn enwedig yn ystod cyfnodau brig (er enghraifft, yn sgil llif traffig y cychod fferi).

Gwynwch Rhwydwaith Gwael

Os yw'r A55 yn cael ei chau yn sgil digwyddiadau/damweiniau neu ar gyfer gwaith wedi'i gynllunio, megis gwaith cynnal a chadw ar y twnelau neu waith atgyweirio'r ffordd, mae diffyg llwybrau gwyriad addas ar gael.

Teithio Cynaliadwy

Diffyg dewisiadau teithio cynaliadwy cystadleuol, mynediad gwael / diffyg diogelwch at yr arfordir i gerddwyr a beicwyr.



Ffigur 2 Ffordd gerbyddau tua'r gorllewin i'r gorllewin o Gyffordd 16A



Ffigur 3 Cyffordd 16A

Mae'r cynigion hyn yn cefnogi cyfeiriad ac amcanion polisi Llywodraeth Cymru fel y nodir yn eu Rhaglen ar gyfer y Llywodraeth 'Symud Cymru Ymlaen' a'r Strategaeth Genedlaethol 'Ffyniant i Bawb' (2017), y 'Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol' (2010) a'r 'Cynllun Ariannol' (2015), 'Strategaeth Trafnidiaeth Cymru 2008' a 'Pholisi Cynllunio Cymru' (2016). Mae Strategaeth Trafnidiaeth Cymru yn nodi'r fframwaith polisi ar gyfer penderfyniadau ar fuddsoddi mewn trafndiaeth ar draws Cymru. Mae Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol, a ddiweddarwyd ddiwethaf yn 2018, yn nodi'r amserlen ar gyfer ariannu a chyflwyno cynlluniau. Mae Cynllun Gwelliannau Cyffyrdd 15 a 16 yr A55 (Cyfeirnod Cynllun R18) yn cael eu hadnabod ar gyfer eu cyflwyno rhwng 2021 a 2023.

Ystyriwyd amrediad eang o ddeddfwriaeth a dogfennau polisi fel rhan o waith datblygu'r Cynllun, gan gynnwys *Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013*, *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015*, *Deddf yr Amgylchedd 2016*, a Chynlluniau Datblygu Lleol perthnasol.

Cytunwyd ar yr amcanion a ganlyn â Llywodraeth Cymru ar ôl ymgynghori â budd-ddeiliaid allweddol a'r cyhoedd, fel rhan o broses WeTAG 2017 ar gyfer y Cynllun:

- AMC1** Gwella mynediad at farchnadoedd rhanbart hol, cenedlaethol a rhyngwladol a gwella mynediad at gyfleoedd cyflogaeth.
- AMC2** Gwella diogelwch ffordd ar yr A55 o Gyffordd 14 i Gyffordd 16A
- AMC3** Gwella amseroedd siwrneion a dibynadwyedd amseroedd siwrneion ar yr A55 o Gyffordd 14 i Gyffordd 16A.
- AMC4** Gwella gwytnwch ar yr A55 ar gyfer traffig strategol a lleol
- AMC5** Gwella amseroedd siwrneion, dibynadwyedd amseroedd siwrneion a diogelwch a mynediad ar yr A55 o Lanfairfechan a Phenmaenmawr.
- AMC6** Lleihau'r datgysylltedd ag ardaloedd arfordirol ar gyfer Defnyddwyr heb Gerbyd Motor a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr.
- AMC7** Cymryd camau rhesymol i adeiladu cymunedau iachach a gwell amgylcheddau.
- AMC8** Cynyddu'r cyfleoedd i ddarparu trafndiaeth integredig.

Mae tri amcan Cynllun technegol hefyd:

- AMCH TECH9** Isafu'r achosion lle nad yw'r sa fonau yn cael eu dilyn o safbwynt technegol.
- AMCH TECH10** Isafu'r angen i leihau cyflymder teithio.
- AMCH TECH11** Isafu'r tarfu yn ystod y gwaith adeiladu.

Cafodd y rhestr hir o ddewisiadau a mesurau trafnidiaeth cysylltiedig eraill eu gwerthuso yn ystod cyfres o astudiaethau WelTAG.

Mae asesiad WelTAG yn arfarnu ac yn gwerthuso unrhyw gynlluniau trafnidiaeth arfaethedig. Yn yr achos hwn, roedd yr opsiynau yn ystyried Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Cafodd yr holl ddewisiadau arfaethedig eu mesur yn erbyn sut maent yn effeithio ar gymunedau lleol presennol ac ar fudd-ddeiliaid presennol o safbwynt effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol a sut mae pob opsiwn yn cyfrannu at nodau llesiant ac amcanion y prosiect. Cafodd ffactorau sy'n gysylltiedig â derbyniadwyedd budd-ddeiliaid, dichonolrwydd, risg a fforddiadwyedd eu hasesu hefyd. Bu i'r asesiadau hyn lunio'r sail i'r rhestr fer o bum opsiwn a gyflwynwyd yn yr Ymgynghoriad Cyhoeddus a gynhaliwyd yn yr Haf 2018.

Yn dilyn yr Ymgynghoriad Cyhoeddus, dangosodd yr ymatebion fod cefnogaeth i welliannau ar hyd Cyffyrdd yr A55 rhwng Cyffyrdd 14 ac 16A, ac yn enwedig i Gyffyrdd 15 ac 16. Arweiniodd hyn at yr opsiwn a ffafriwyd a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019.

Fel rhan o'r dasg o ddatblygu'r opsiwn a ffafriwyd a defnyddio adborth yr ymgynghoriad, ystyriwyd nifer o opsiynau dylunio, gan gynnwys:

- Trefniant y cae chwaraeon anffurfiol a'r mannau agored cyhoeddus gerllaw Gorsaf Wasanaethau Puffin.
- Nifer o gynlluniau bychan ar gyfer Defnyddwyr heb Gerbyd Motor i wella'r llwybrau Teithio Llesol, gan gynnwys cysylltiadau i Lwybr Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol Sustrans Rhif 5 (NCNR5) a Hawliau Tramwy.
- Darpariaeth ar gyfer diogelwch cerddwyr a beicwyr sy'n croesi'r ffordd gyswllt a'r A55, yn enwedig yng nghyffiniau Gorsaf Wasanaethau Puffin ac yng Nghyffordd 16A.
- Lledu Ffordd Glan yr Afon.
- Darpariaeth ar gyfer rheoli digwyddiadau.

Yn ogystal, bydd Adroddiad Datblygiad Cynaliadwy ar gael sy'n ystyried llesiant pobl a sut mae'r Cynllun yn alinio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.



Ffigur 4 Coridor ffordd yr A55 i'r dwyrain o Gyffordd 16




Ffigur 5 Yr olygfa i'r dwyrain ar hyd Penmaenmawr gyda choridor ffordd presennol yr A55 uwchben y caffi a'r ardal chwarae

Disgrifiad y Cynllun

Mae'r Cynllun yn cynnwys ail-alinio'r A55 i wneud lle ar gyfer y gyffordd newydd yng Nghyffordd 16A. Mae'r gwelliannau wedi'u dylunio i leihau'r gofynion cynnal a chadw (wedi'u cynllunio ac ar ôl digwyddiadau) ac felly'n gwella gwytnwch ar hyd y rhan hon.

Byddai ffordd gyswllt a llwybr beicio/llwybr troed yn cael eu hadeiladu rhwng Cyffyrdd 16 ac 16A i rwymo â'r isadeiledd presennol. Er y byddai'r ffordd gyswllt yn gwasanaethu fel ffordd osgoi i Ddwygyfylchi, byddai'r mynediad i'r pentref ac i Gapelulo yn cael ei gadw. Hefyd, cynigir mesurau tawelu traffig er mwyn annog traffig o Benmaenmawr i beidio â defnyddio Ffordd Glan yr Afon.

Yng Nghyffordd 16, byddai'r gylchfan bresennol ar y dynesiad dwyreiniol i Benmaenmawr yn cael ei amnewid â ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gorllewin. I wneud lle ar gyfer y trefniant slipffyrdd wedi'i uwchraddio tua'r gorllewin yng Nghyffordd 16, byddai angen ail-alinio oddeutu 170m o Ffordd Conwy a 60m o Ffordd Ysguborwen. Byddai'r gofod agored a grëir yn dilyn y gwaith gerllaw Oasis yn cael ei dirlunio a'i integreiddio yn y gyffordd â Ffordd Ysguborwen. Yn fras, byddai'r ffordd gyswllt newydd yn rhedeg o gylchfan newydd ar Ffordd Conwy, yng Nghyffordd 16, yn baralel â'r A55, gan ffurfio cyffordd newydd â Ffordd Ysguborwen. Byddai clawdd, neu drychfa ffals, yn sgrinio'r A55 a'r ffordd gyswllt i olygfeydd o'r de. Gan ymestyn tua'r dwyrain, byddai'r ffordd gyswllt yn pasio'n agos i ochr ogleddol tai ym Maes-y-Llan lle byddai rhwystrau sŵn o fudd i'r trigolion. Yna, byddai'n dolennu o amgylch ochr ddeheuol Caffi'r Puffin a'r Orsaf Wasanaethau. Yn y lleoliad hwn, byddai'r gofod agored cyhoeddus presennol yn cael ei ailffurfweddu a byddai croesfan i gerddwyr yn arwain at bont droed Puffin a'r gwasanaethau yn cael ei darparu.



Ffigur 6 Gyffordd 16

Byddai'r clawdd, neu'r ddrychfa ffals, yn parhau ar hyd ochr ddeheuol y ffordd gyswllt tuag at Afon Gyrach, gan sgrinio'r A55 a'r ffordd gyswllt. I'r dwyrain o Afon Gyrach, byddai sgrinio gweledol yn cael ei ddarparu drwy blannu coridor o goed a phrysglwyni.

Cyn Cyffordd 16A, byddai'r ffordd gyswllt yn ymuno â Ffordd Glan yr Afon fyddai'n cael ei hail-alinio a'i lledu dros hyd o oddeutu 250m er mwyn iddi rwymo â'r ffordd gyswllt newydd. Byddai croesfan i gerddwyr yn cael ei darparu ar draws y ffordd gyswllt i rwymo â NCNR5 a'r arfordir.

Yng Nghyffordd 16A, byddai'r Cynllun yn darparu cyffordd gyda symudiad pedair ffordd a throsbont. Byddai'r slipffyrdd i'r dwyrain a'r gorllewin yn cael eu hadeiladu ar argloddiau. Byddai gwaith plannu yn cael ei wneud ar yr argloddiau sy'n wynebu'r de, fel y byddai golygfeydd o'r A55 yn cael eu cuddio'n rhannol mewn drychfa a chan y slipffyrdd tua'r gorllewin sydd wedi'u codi. Byddai llif traffig i'r A55 ar hyd y slipffyrdd tua'r dwyrain yn cael ei reoli gan oleuadau traffig yn y gyffordd, gyda chroesfan i gerddwyr wedi'i lleoli ar ochr ogleddol y bont newydd. Hefyd, byddai modd i Ddŵr Cymru/Welsh Water (DCWW) gael mynediad at y gwaith trin dŵr oddi ar y ffordd ymadael tua'r dwyrain.

Mae'r Cynllun yn cynnwys amrediad o fesurau Teithio Llesol i wella'r ddarpariaeth sydd ar gael i gerddwyr a beicwyr, gan gynnwys y llwybr beicio/llwybr troed ar wahân ar hyd y ffordd gyswllt newydd, llwybr beicio/llwybr troed 160m newydd ar hyd Ffordd Glan yr Afon a 400m o lwybr beicio/llwybr troed ar wahân ar hyd ochr gogleddol Ffordd Conwy. Byddai'r mesurau hyn yn darparu gwell cysylltedd ar gyfer y gymuned leol rhwng canol y dref, yr arfordir, Dwygyfylchi a thu hwnt drwy lwybrau beicio pellter hir sydd wedi hen sefydlu.



Figur 7 Delwedd o'r Cynllun yn edrych tua'r gorllewin ar draws y Gyffordd 16A newydd sy'n cael ei gwahanu ag uchder a'r drosbont a'r ffordd gyswllt newydd tuag at Benmaenmawr

Amcangyfrif o'r Costau

Mae'r amcanion cost a ganlyn yn seiliedig ar brisiau Chwarter 4 2019.

Cydran	Amcangyfrif
Gwaith Paratoi	£3,906,500
Goruchwyllo	£868,900
Adeiladu	£17,832,400
Tir	£500,000
Cyfanswm (heb gynnwys TAW a chwyddiant hyd at gwblhau)	£23,107,800

Tabl 1 Amcangyfrif o'r Gost

Safonau Peirianeg

Mae'r Cynllun wedi'i ddylunio gan roi ystyriaeth i'r holl bolisïau, cynlluniau a safonau cynllunio cenedlaethol a lleol. Cyflymder Dyluniedig y Gefnffordd yw 120kph a bydd yn ddarostyngedig i'r cyfyngiad cyflymder cenedlaethol. Cyflymder Dyluniedig y ffordd gyswllt arfaethedig yw 50kph. Bydd Ffyrdd Ochr yn unol â'r rhwydwaith ffyrdd lleol presennol. Fodd bynnag, byddai achosion o Wyro oddi wrth y Safonau o ran geometreg y briffordd, er mwyn isafu effaith cyfyngiadau eraill, ynghyd â lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.

Mae'r cyfyngiadau dylunio'n cynnwys mynediad Dŵr Cymru a phwynt mynediad Network Rail yng Nghyffordd 16A, cynnal y ffordd gerbydau tua'r gorllewin drwy Gyffordd 16A a gwyrdd y ffordd gyswllt newydd o amgylch garej Shell.

Strwythurau

Byddai angen chwech o strwythurau newydd ar hyd llwybr y Cynllun, gan gynnwys pontydd a waliau cynnal, fel a ganlyn:


1. Wal Gynnal Maes-y-Llan i'r Gorllewin: wal bentyredig uchel 4m yn cefnogi'r ffordd fynediad i'r eiddo.
2. Wal Gynnal Maes-y-Llan i'r Dwyrain: wal bentyredig uchel 3.5m yn cefnogi'r ffordd fynediad i'r eiddo.
3. Wal Gynnal Cyffordd 16A Tua'r Dwyrain: Wal bridd uchel 7m i gefnogi ffyrdd ymuno ac ymadael Cyffordd 16A i'r dwyrain, gyda chyfanswm hyd cyffredinol o oddeutu 280m.
4. Trosbont Cyffordd 16A: Trosbont concrid wedi'i ragdynhau â rhychwant o 32m o led yn cysylltu Dwygyfylchi â'r A55.
5. Pont droed Dwygyfylchi: Pont droed aml-rychwant drawst 61m yn cysylltu Dwygyfylchi â ffordd feicio NCNR5 a'r arfordir.
6. Croesfan newydd Afon Gyrach: Pont fwa â rhychwant o 5m yn cario'r ffordd gyswllt dros Afon Gyrach.

Dengys lleoliadau'r strwythurau hyn ledled y Cynllun yn Ffigwr 8 isod.

Cerdded, Beicio a Marchogaeth

Byddai'r llwybr troed rhwng Maes-y-Llan a'r A55 a rhan o'r llwybr troed anffurfiol yn Bangor Fields Road rhwng Glan yr Afon a'r A55 yn cael eu cau fel rhan o'r cynllun gwella. Cyflwynir nifer o welliannau arfaethedig i lwybrau cerdded a beicio yn Ffigwr 8. Rhagwelir y byddai'r rhain yn gwella ansawdd a chysylltedd y llwybrau cerdded a beicio presennol. Bydd rhain yn cynnwys:

- a. Gwelliannau i Ffordd Glan yr Afon – llwybr beicio/troed 160m newydd ar hyd Ffordd Glan yr Afon i ddarparu gwell cysylltedd â Dwygyfylchi o'r dwyrain ac i'r llwybr newydd ar hyd y ffordd gyswllt newydd.
- b. Gwelliannau i Ffordd Conwy – llwybr beicio/troed ar wahân 400m o hyd ar hyd ochr ogleddol Ffordd Conwy, gan ddarparu cyswllt rhwng ardal breswyl Penmaenmawr, llwybr troed presennol 29/06 a mwynderau lleol megis maes Pêl-droed Clwb Penmaenmawr Phoenix.



★ 1	MAES-Y-LLAN RETAINING WALL WEST	★ 5	DWYGIFYLCHI FOOTBRIDGE
★ 2	MAES-Y-LLAN RETAINING WALL EAST	★ 6	NEW AFON GYRACH CROSSING
★ 3	JUNCTION 16A EASTBOUND RETAINING WALL	● a	IMPROVEMENTS TO GLAN-Y-AFON ROAD
★ 4	JUNCTION 16A OVERBRIDGE	● b	IMPROVEMENTS TO CONWAY ROAD

Ffigur 8 Cynllun o Gynllun Bychan a Strwythurau i Ddefnyddwyr heb Fotor yng Nghyffordd 16

Mae'n bosib y byddai nifer o lwybrau defnyddwyr heb fotor yn cael eu heffeithio yn ystod y gwaith i wneud y gwelliannau, gan gynnwys llwybrau troed NCN5, Ffordd Conwy a Glan yr Afon. Yn ogystal, byddai Llwybrau Cyhoeddus 29/06 a 29/08 yn cael eu heffeithio gan y Cynllun. Byddai gwyradau dros dro yn cael eu darparu yn ystod y cam adeiladu, hyd nes y byddai'r llwybrau wedi'u huwchraddio ar gael i'w defnyddio.

Defnydd Tir

Byddai'r Cynllun angen oddeutu 25 Hectar (ha) o dir; byddai 9 yn dir amaethyddol. Byddai 3 o fusnesau amaethyddol yn cael eu heffeithio i raddau amrywiol yn ystod y gwaith adeiladu ac ar ôl i'r Cynllun gael ei gwblhau.

Byddai angen tir pellach dan drwydded hanfodol er mwyn ymgymryd â gwaith adeiladu. Rhagwelir y byddai'r ardaloedd hyn yn cael eu meddiannu am y cyfnod adeiladu cyfan cyn cael eu dychwelyd i'w defnydd gwreiddiol a'u trosglwyddo'n ôl i'r perchnogion.

Amodau'r Tir

Cynhaliwyd ymchwiliad tir cynhwysfawr i hysbysu dyluniad Cynllun i sicrhau bod dyluniad y strwythurau a'r gwaith ar y tir yn briodol ar gyfer y daeareg presennol. Bydd deunydd llenwi'n cael ei ffynonellu'n lleol lle bo hynny'n addas. Mae daeareg Gogledd Cymru ymysg y mwyaf cymhleth yn y DU, yn amrywio o ddaeareg sydd bron yn 600 miliwn oed, i ddyddodion diweddar yn y tir megis tirlenwi. Mae'r daeareg solid sydd i'w gael fel sylfaen i ardal y Cynllun wedi'i lunio'n bennaf o garreg laid a rhyolit, sy'n oddeutu 450 miliwn o flynyddoedd oed.

Mae nifer o ffawtiau daearegol wedi'u casglu yn yr ardal gyfagos, sy'n bennaf yn y gogledd-orllewin i'r de-ddwyrain. Nid oes tystiolaeth o fwyngloddio glo neu fwyngloddio nad yw'n gysylltiedig â glo yn ardal y Cynllun. Bu mwyngloddio'n digwydd yn Chwareli Penmaen-Mawr, ar ben uchaf ac ochr ogleddol y bryn i'r de o'r A55 a Phenmaenmawr, oddeutu 2km i'r de-orllewin o ardal y Cynllun. Hefyd, by mwyngloddio'n digwydd i'r dwyrain o ardal y Cynllun, rhwng Penmaen-bach a Mynydd y Dref.

Draenio

Byddai'r Cynllun yn defnyddio dull draenio confensiynol i waredu dŵr o'r ffordd gerbydau. Byddai'r dull draenio hwn, ynghyd â'r storfa wanhau, wedi'i ddylunio i storio dŵr wyneb ac yna'i wagio i'r rhwydwaith presennol, o dan lein rheilffordd arfordirol bresennol Gogledd Cymru ac yna i mewn i'r môr drwy arllwysfeydd presennol. Byddai ffosydd draenio neu ddraeniau, ffitro cyn gwneud gwaith ar y tir yn cael eu gosod ar hyd ymylon y llethrau fydd wedi'u cloddio. Byddai'r rhain yn sicrhau bod unrhyw ddŵr ffo wyneb yn cael ei gyfeirio i ffordd o'r gweithrediadau adeiladu i bwyntiau arllwys addas.

Rhagwelir y byddai'r gwaith o adeiladu dull gwanhad parhaol yn cael ei wneud fel rhan o'r broses cyn gwaith ar y tir fel bod modd iddynt weithredu, fel bo'n briodol, fel lagynau setlo dros dro, i atal silt rhag mynd i mewn i'r draeniau neu'r cyrsiau dŵr presennol.

Bydd y dyluniad draenio ar gyfer gwelliannau Cyffordd 16 yn cael ei wneud yn unol â'r **Design Manual for Roads and Bridges Volume 4** a bydd yn ymgorffori amrediad o fesurau sydd wedi'u bwriadu i fodloni'r gofynion cyfatebol ar gyfer Draenio Cynaliadwy. Mae'r rhain yn cynnwys darparu dull gwanhau dŵr wyneb i ddarparu capasiti cydbwysu a rheoli'r arllwysladau i mewn i'r system ddŵr wyneb bresennol, a gwarchod y capasiti storio dŵr llifogydd lle mae perygl o orlifo dŵr wyneb neu lifogydd afonol.

Mae asesiad risg ansawdd dŵr ac asesiad canlyniadau llifogydd wedi'u cynnal. Mae'r rhain wedi casglu mai effaith ddibwys fyddai'r cynllun yn ei gael ar ansawdd dŵr wyneb, dŵr daear a dŵr ymdrochi. Casglwyd hefyd, gyda'r mesurau arfaethedig, na fyddai unrhyw gynnydd yn y perygl o lifogydd fyddai'n gysylltiedig â'r cynllun.

Goleuadau Ffordd

Mae goleuadau ffordd yn cael eu darparu ar hyd y rhan hon o'r A55 ac ar ffyrdd sirol gerllaw yn barod. Byddai goleuadau newydd yn cael eu gosod ar draws y Cynllun i fodloni safonau cyfredol. Byddai'r goleuadau wedi'u dylunio i allyrru dim golau uwchben y lefel llorweddol. Cynigir goleuadau LED oherwydd gall y rhain fod yn fwy cyfeiriadol, a chan hynny, leihau faint o olau sy'n cael ei daflu y tu hwnt i lefel y ffordd.

Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae'r Cynllun yn effeithio ar sawl gwasanaeth ac mae ymgynghoriad wedi'i gynnal â'r holl berchnogion a holl weithredwyr yr amrywiol wasanaethau i sefydlu sut fyddai'r Cynllun arfaethedig yn effeithio ar eu cyfarpar. Mae'r dyluniad wedi ystyried hyn ac mae'n ceisio isafu'r effaith.

Adeiladu

Rhagwelir y bydd y cyfnod adeiladu'n para 18 mis. Ar ôl adeiladu, byddai'r camau lliniaru amgylcheddol yn cael eu rheoli a'u monitro gan y Contractwr am dair blynedd. Wedi hynny, bydd yn cael ei reoli gan Lywodraeth Cymru. Ar ddechrau'r gwaith adeiladu, byddai'r safle'n cael ei ffensio, a byddai'r gwaith o glirio'r safle yn mynd rhagddo.

Byddai'r safle adeiladu yn cael ei ddiogelu cyn gynted â phosib drwy godi ffensys parhaol. Lle nad oes modd gwneud hynny, bydd ffens dros dro yn cael ei gosod. Byddai'r gwaith o glirio'r safle yn mynd rhagddo drwy glirio llystyfiant, a hynny ar amser a chan ddefnyddio dull fydd yn osgoi niwed i fywyd gwylt.

Byddai'r holl waith yn cael ei reoli a'i raglennu'n ofalus yn unol â'r cyfyngiadau amgylcheddol perthnasol. Byddai trwyddedau rhywogaethau gwarchodedig yn cael eu ceisio ar gyfer gwahanol rywogaethau, fel bo'r angen. Byddai caniatâd draenio dros dro a pharhaol, ynghyd â chaniatâd amgylcheddol arall, gan gynnwys caniatâd adeilad restredig, yn cael ei geisio lle bo'r angen.

Byddai gwaith cysylltiedig â'r prif waith ar y tir yn cael ei flaenoriaethu fel gweithgarwch adeiladu cynnar, fel bo modd mynd ati i adeiladu'r prif bontydd a'r cylfatiau cyn gynted â phosib yn y rhaglen adeiladu.

Rhagwelir, er y bydd angen cau Cyffordd 16A am lawer o'r cyfnod adeiladu, y bydd Cyffordd 16 yn parhau ar agor. Mae'r gymuned yn debygol o brofi cynnydd dros dro mewn traffig yn ystod y camau adeiladu. Byddai'r Cynllun yn cynnal llwybrau i ac o'r holl gyfleusterau presennol yn y gymuned fel bod modd eu cadw ar agor, gyda mesurau rheoli traffig ar waith fel rhan o'r cam hwn, yn ôl yr angen. I isafu unrhyw darfu ar y cyhoedd, bydd y Contractwr yn gweithio â'r Asiant Cefnffyrdd ACGCC a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Cyngor Gwynedd.

Yn ystod y gwaith adeiladu, bydd y sŵn adeiladu yn cael ei fonitro i sicrhau nad yw'r gweithgareddau hyn yn mynd dros y trothwyon a gytunwyd. Yn ystod y cam ôl-ofal, bydd effeithiolrwydd y mesurau lliniaru sŵn yn cael ei fonitro yn gyfnodol i sicrhau ei fod yn effeithiol.

Yr ystyriaeth hollbwysig drwy gydol y cam adeiladu yw cynnal dwy lôn o draffig ymhob cyfeiriad ac i leihau cyfnodau lle bod dim ond un lôn ar agor. Cynhelir mynediad lleol at eiddo preswyl ac eiddo busnes drwy gydol y cyfnod adeiladu a bydd y ddarpariaeth yn parhau yr un fath ar ôl i'r gwaith adeiladu ddod i ben.

Byddai prif lwybr a slipffyrdd presennol yr A55 yn parhau ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru. Byddai perchnogaeth a'r gwaith o gynnal a chadw'r ffordd gyswllt arfaethedig, Ffordd Ysguborwen a Ffordd Conwy fydd wedi'u hailalinio, yn cael eu trosglwyddo o Weinidogion Cymru i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Er dibenion y Gorchmynion, mae hyd y briffordd i'w chau i fyny yng Nghyffordd 16 yn cynnwys:

- Cefnffordd yr A55 o bwynt 298m i'r de-orllewin o bwynt canol cyffordd bresennol Cylchfan Puffin, i'r gogledd-ddwyrain am hyd o 437m, i bwynt ar gefnffordd yr A55, 143m i'r gogledd-ddwyrain o bwynt canol cyffordd bresennol cylchfan Puffin.
- Cefnffordd yr A55 o bwynt 415m i'r de-orllewin o ochr de-orllewinol y gyffordd bresennol â Ffordd Glan-Yr-Afon, i'r gogledd-ddwyrain am bellter o 380m, i bwynt 35m i'r de-orllewin o ochr de-orllewinol ei gyffordd bresennol â Ffordd Glan-Yr-Afon.

Byddai mwyafrif y dulliau mynediad preifat i eiddo sydd wedi'u lleoli yn ardal y Cynllun yn cael eu cadw, fodd bynnag mae nifer o eiddo ar hyd Ffordd Glan yr Afon, Ffordd Ysguborwen a Ffordd Conwy lle byddai mân addasiadau yn cael eu gwneud i'w dull mynediad preifat. Yn ogystal, byddai mynediad i eiddo ar hyd Maes-y-Llan yn cael ei effeithio dros dro yn ystod y gwaith adeiladu.



Ffigur 9 Golygfa o'r A55 o Alltwen gyda chwm coediog Afon Gyrach yn croesi'r gwastadedd arfordirol

Modelu Trafnidiaeth
Pennwyd buddion amser siwrneion y Cynllun drwy gymharu'r amodau traffig gyda'r Cynllun ac hebddo. Mae'r methodoleg a ddefnyddiwyd yn gwbl unol â safonau a chanllawiau technegol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Defnyddiwyd amrywiaeth o ddata traffig i fodelu effaith y ffordd osgoi yn y Flwyddyn Sail (2017), y Flwyddyn Agoriadol (2022) a'r Flwyddyn Dyluniad (2037). Gweler y llif traffig dwy ffordd a amcangyfrifir mewn lleoliadau allweddol yng Nghyffordd 16 yn Nhabl 2.

Location	Blwyddyn Sail	Blwyddyn Agoriadol 2022			Blwyddyn Ddylunio 2037		
	Gwneud Dim	Gwneud yr isafswm	Gwneud rhywbeth	Gwahaniaeth o Wneud yr isafswm	Gwneud yr isafswm	Gwneud rhywbeth	Gwahaniaeth o Wneud yr isafswm
Yr A55 rhwng C15A a C16	32,736	35,576	35,459	0%	41,277	41,074	0%
Ffordd Conwy (i'r gorllewin o C16)	1,070	1,369	2,869	110%	1,591	3,317	108%
Ffordd Ysguborwen (i'r dwyrain o C16)	3,975	4,321	4,669	8%	4,985	5,388	8%
Yr A55 (i'r dwyrain o C16)	36,644	39,782	37,259	-6%	46,120	43,145	-6%
Yr A55 tua'r gogledd (i'r dwyrain o C16)	18,775	20,402	20,596	1%	23,631	23,795	1%
Stryd Fawr, Penmaenmawr	1,280	1,350	1,346	0%	1,556	1,556	0%
Hen Ffordd Conwy, Penmaenmawr	457	497	266	-46%	516	317	-39%
Hen Ffordd Conwy, Capelulo	346	348	169	-51%	342	201	-41%
Ffordd Ysguborwen, Dwygyfylchi	735	928	576	-38%	1,084	662	-39%
Glan-Yr-Afon, Dwygyfylchi	713	920	955	4%	1,067	1,101	3%
Yr A55 tua'r de (i'r dwyrain o C16)	18,583	20,300	20,304	0%	23,557	23,557	0%
Ffordd Bangor, Penmaenmawr	2,486	2,662	2,779	4%	3,006	3,209	7%
Ffordd Gyswllt, Dwygyfylchi	Amh N/A	Amh N/A	2,751	Amh N/A	Amh N/A	3,181	Amh N/A
Ffordd Treforris, Capelulo	112	150	98	1736%	175	117	-33%

Tabl 2 Llif Traffig Dyddiol Cyfartalog Blyneddol Presennol a'r Llif a Ragfynegir (AADT) (Pob Cerbyd) – Crynodeb o Gyfanswm y Llif Traffig Dwy-ffordd ar gyfer y gefnffordd newydd yn y Flwyddyn Sail (2017), y Flwyddyn Agoriadol (2022) a'r Flwyddyn Ddylunio (2037)

Perfformiad Economaidd y Cynllun

Mae perfformiad economaidd y Cynllun wedi cael ei asesu drwy gymharu'r costau â'r buddion traffig fyddai'n cael eu gwireddu. Mae'r buddion a ystyriwyd yn cynnwys arbedion amser siwrneion a buddion o ganlyniad i lai o ddamweiniau ffordd. Gweler crynodeb yn Nhabl 3 isod.

Canlyniadau'r Asesiad (prisiau 2010, wedi'u disgowntio i 2010)	
Gwerth Presennol y Buddion (PVB)	£20,651,000
Gwerth Presennol y Costau (PVC)	£15,314,000
Gwerth Presennol Net (PVB-PVC)	£5,337,000
Cymhareb Budd Cost	1.349

Tabl 3 Perfformiad Economaidd



Ffigur 10 Delwedd o'r ffordd gyswllt arfaethedig yn pasio heibio i'r de o'r Orsaf Danwydd a Chaffi Puffin

Bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried unrhyw sylwadau cyn penderfynu p'un i fwrw ymlaen â'r Cynllun ai peidio. Yn ddibynnol ar natur a nifer unrhyw wrthwynebiadau a sylwadau a dderbynnir mewn ymateb i'r Gorchmynion drafft a gyhoeddir, efallai y cynhelir Archwiliad Lleol Cyhoeddus gerbron Archwiliwr Annibynnol.

Os cynhelir Archwiliad Lleol Cyhoeddus, byddai pawb sydd wedi ymateb yn cael eu hysbysu ymhen 4 wythnos o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu, fel rheol, a'r Archwiliad yn cael ei gynnal ymhen 22 wythnos o'r hysbysiad hwnnw. Bydd manylion llawn yr Archwiliad Lleol Cyhoeddus yn cael eu cadarnhau, a hysbysiadau yn ymddangos yn y wasg leol.

Bydd yr Archwiliwr yn cael copi o bob gohebiaeth ac fe gedwir yr holl ohebiaeth yn Llyfrgell yr Archwiliad, sydd ar gael i'r cyhoedd. Rhoddir cyhoeddusrwydd i unrhyw gynnig amgen dichonadwy a dderbynnir, o fewn cyfnod o amser i'w nodi ar Hysbysiad yr Archwiliad Lleol Cyhoeddus.

Os bydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu bwrw ymlaen â'r Cynllun lle mae'r Datganiad Amgylcheddol wedi'i gyhoeddi ar ei gyfer, rhaid iddynt gyhoeddi gwybodaeth ynghylch yr ymgynghoriad a gynhaliwyd, yn unol â Rheoliad Priffyrdd (Asesiad Effaith Amgylcheddol) 2007, y sylwadau a dderbyniwyd, ac unrhyw newidiadau a wnaed o ganlyniad.



Ffigur 11 Ffotograff o'r awyr o Alltwen yn edrych dros bentref Dwygyfylchi a choridor ffordd yr A55 tuag at Chwael Penmaenmawr a thu hwnt i arfordir Môn ar y gorwel

Gaeaf 2020/2021 Cyhoeddi Gorchmynion Drafft a'r Datganiad Amgylcheddol

Bydd y rhain yn nodi'r tir y byddai ei angen ar gyfer adeiladu'r Cynllun a'r gwaith lliniaru amgylcheddol a fyddai'n rhan o hyn. Byddai'n nodi mynedfeydd lleol a'r ddarpariaeth o Fynedfeydd Preifat. Bydd cyfle wedyn i chi wrthwynebu neu gefnogi'r Cynllun yn ffurfiol, neu awgrymu cynllun amgen.

Haf 2021 Ymchwiliad Cyhoeddus Posibl

Os bydd angen Ymchwiliad Cyhoeddus, byddai Arolygydd annibynnol yn clywed tystiolaeth, o flaen y cyhoedd, gan bartïon a rhanddeiliaid â buddiant. Byddai'r Arolygydd yn gwneud argymhelliad i Weinidogion Cymru ynghylch sut i fwrw ymlaen.

Hydref 2021 Penderfyniad Gweinidogion Cymru i Wneud y Gorchmynion

Byddai Gweinidogion Cymru yn penderfynu a ddylid gwneud Gorchmynion Statudol a bwrw ymlaen â'r gwaith o adeiladu'r prosiect.

Hydref 2021 Penodi Contractwr Dylunio ac Adeiladu yn amodol ar benderfyniad Gweinidogion Cymru

Yn amodol ar y penderfyniad i fwrw ymlaen â'r Cynllun, byddai'r Contractwr a fydd yn ymgymryd â'r gwaith dylunio manwl a'r gwaith adeiladu yn cael ei benodi gan Lywodraeth Cymru.

Gaeaf 2021/2022 Dechrau'r gwaith adeiladu ar y safle

Byddai'r gwaith o adeiladu'r rhan newydd o'r gefnffordd yn cychwyn.

Hydref 2023 agor gwelliannau cyffordd 16

Byddai'r rhan o'r ffordd wedi ei gwella yn agor.

Gellir archwilio copïau o'r Datganiad Amgylcheddol a'r Gorchymyn Llwybr, Gorchymyn Ffyrdd Ochr neu'r Gorchymyn Prynu Gorfodol sydd bellach wedi'u cyhoeddi, yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol drwy gydol y cyfnod gwrthwynebu fel y nodir ar yr Hysbysiad Cyhoeddus, a hynny yn yr eiddo a ganlyn:

- Canolfan Ddiwylliant Conwy, Ffordd Town Ditch, Conwy, LL32 8NU
- Llyfrgell Penmaenmawr, Ffordd Bangor, LL34 6DA
- Llyfrgell Llanfairfechan, Village Road, LL33 0AA

Mae'r holl wybodaeth berthnasol ar y Gorchmynion drafft a'r Datganiad Amgylcheddol ar gael yn ddigidol ar wefan Llywodraeth Cymru neu ar gais gan y tîm prosiect drwy anfon e-bost at y cyfrif a ganlyn A55J15J16@ramboll.com. Yn ystod y cyfnod heriol hwn, rydym yn ymdrechu i sicrhau bod copïau caled ar gael i unrhyw un sy'n dymuno eu gweld. Mae rhestr o'r eiddo lle mae'r dogfennau wedi cael eu hadneuo dan adolygiad parhaus ac fe allai gael ei addasu'n seiliedig ar y canllawiau COVID-19 diweddaraf. Bydd gwybodaeth gyfredol ynghylch sut ellir cael mynediad at y dogfennau ar gael ar wefan y prosiect ac ar hysbysiadau a osodir yn y lleoliadau. Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn cael ei adrodd mewn pedair rhan:

- Crynodeb Annhechnegol
- Cyfrol 1 – Adroddiad Asesiad Technegol
- Cyfrol 2 – Ffigyrau
- Cyfrol 3 – Atodiadau Technegol



Gellir gweld copïau pellach o'r Adroddiad Asesiad Cynllun Cam 3 hwn a'r holl ddogfennau sydd wedi'u cyhoeddi ar gyfer y Cynllun ar wefan y prosiect:

<https://llyw.cymru/a55-cyffordd-16-ac-16A>

Os ydych yn dymuno cefnogi, gwneud sylw neu wrthwynebu i'r Gorchmynion drafft neu'r Gorchymyn Prynu Gorfodol, cyflwyno cynigion amgen neu wneud sylw ar y Datganiad Amgylcheddol, dylech ysgrifennu at Lywodraeth Cymru a'i anfon i'r cyfeiriad isod:

Cangen Gorchmynion, Trafnidiaeth,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd CF10 3NQ.

Dylid anfon pob gohebiaeth o'r fath fel ei bod yn cyrraedd Llywodraeth Cymru ddim hwyrach nag ar ddiwedd y cyfnod fel sydd wedi'i nodi ar yr Hysbysiad Cyhoeddus.



EGLURHAD / LEGEND

- PRIFORDD ARFAETHEDIG PROPOSED HIGHWAY
- LLWYBR TROED / BEICIO FOOTPATH / CYCLEWAY
- GLASWELLTIR GRASSLAND
- COEDWIG WOODLAND
- COED TREES
- MUR CYNHALIOL RETAINING WALL
- HAWLFRAINT CYHOEDDUS PUBLIC RIGHT OF WAY
- RHWYSTR SŴN NOISE BARRIER
- WAL MAEN MASONRY WALL

